# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**14EG MEDI 2017**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, J.M. Charles, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, J.G. Prosser, D.E. Williams and J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
P. Booth, Swyddog Trwyddedu
A. Evans, Cyfreithiwr Cynorthwyol
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir – 10:00am - 11:05 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies a C.A. Davies.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR ABDUL LAICE CHOWDHURY.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Abdul Laice Chowdhury, 26 Stryd Coldstream, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Chowdhury ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Chowdhury yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Abdul Laice Chowdhury am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

4. **CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR BERNARD PRICE.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Bernard Price, 159 Trilwm, Trimsaran, Cydweli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Price ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Price yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Bernard Price am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

5. **CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR RICHARD JAKE PITMAN.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Richard Jake Pitman, 19 Zion Row, Llanelli i adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Pitman ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Pitman yn cael ei wrthod.

Ar hynny

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Richard Jake Pitman am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd llym iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rhesymau

Ar ôl ystyried y ffeithiau a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded. Fodd bynnag, rhybuddiodd y Pwyllgor yr ymgeisydd petai unrhyw gollfarnau neu faterion yn codi mewn perthynas â'i drwydded yn y dyfodol, y gallai ei drwydded gael ei dirymu.

**6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 9FED AWST, 2017.**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 9fed Awst, 2017, gan eu bod yn gywir.**

**7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 3YDD AWST, 2017.**

Cafodd aelodau'r Pwyllgor, er ystyriaeth, gofnodion cyfarfod 3ydd Awst, 2017 a rhoddwyd gwybod iddynt am y newidiadau canlynol i'r cofnodion:

- Cofnod 1 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb – Y Cynghorydd J.E. Williams i'w gynnwys yn y rhestr o ymddiheuriadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar y newidiadau uchod, lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Awst 2017 yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |